O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2016 Rhif 66 (Cy. 33)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pontypridd i Abercynon, Rhondda Cynon Taf) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2016

Gwnaed	*21 Ionawr 2016*
Yn dod i rym	*25 Ionawr 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Ionawr 2016. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pontypridd i Abercynon, Rhondda Cynon Taf) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2016.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr, ac

(b) sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i)ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 25 Ionawr 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "lluoedd arbennig" *("special forces")* yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n 2.9 metr o led neu'n fwy fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ar naill ai cerbytffordd tua'r gogledd na cherbytffordd tua'r de y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

6. Tra bo cerbydau'n cael eu gwahardd, gan erthygl 5, rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gogledd ond, yn unol ag erthygl 10, ddim yn cael eu gwahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r de, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn ei flaen yn lôn allanol cerbytffordd y gefnffordd tua'r de i unrhyw gyfeiriad heblaw tua'r gogledd.

7. Tra bo cerbydau'n cael eu gwahardd, gan erthygl 5, rhag symud ar y gerbytffordd tua'r de ond, yn unol ag erthygl 10, ddim yn cael eu gwahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gogledd, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn ei flaen yn lôn allanol cerbytffordd y darn o'r gefnffordd tua'r gogledd i unrhyw gyfeiriad heblaw tua'r de.

8. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

9. Atal dros dro

Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atloden 3 wedi eu hatal drwy hyn ar adegau pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 8 yn weithredol.

Cymhwyso

10. (1) Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7 ac 8 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

11. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 21 Ionawr 2016

Richard Morgan
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi.

(2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1
Gwahardd pob cerbyd

1. Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Barc Navigation i'w chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Abercynon.

2. Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Broadway hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Abercynon.

3. Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Abercynon hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r de wrth Gyfnewidfa Broadway.

4. Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r de y gefnffordd wrth Dŷ Trevithick, Abercynon.

5. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Bridge Street, Pontypridd.

ATODLEN 2
Hyd a lled y gwrthlif

1. Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 425 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt trosbont Travellers Rest i gyfeiriad y gogledd am 468 o fetrau.

2) Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 280 o fetrau i'r de o gerbytffordd gylchredol cylchfan Abercynon i gyfeiriad y de am 468 o fetrau.

ATODLEN 3
Terfyn cyflymder 50 mya

1. Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael wrth Barc Navigation i bwynt 350 o fetrau i'r de o gerbytffordd gylchredol Cylchfan Abercynon.

2. Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 35 o fetrau i'r de o gerbytffordd gylchredol Cylchfan Abercynon i bwynt 1.635 o gilometrau i'r de o'r gerbytffordd gylchredol honno.

3. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r de wrth Dŷ Trevithick, Abercynon.